

## Adroddiad Seminar Cynghrair Henoed Cymru Canlyniadau o'r Gronfa Gofal Canolraddol



Cyfarfu aelodau o Gynghrair Henoed Cymru â chynrychiolwyr byrddau iechyd lleol, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn ddiweddar i drafod eu profiadau o'r Gronfa Gofal Canolraddol. Lanswyd y gronfa gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013 a'i nod yw darparu "*cyfle gwirioneddol i adeiladu ar weithio'n effeithiol ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thai i wella cynllunio a darparu gwasanaethau mwy integredig.*"<sup>1</sup>

Sicrhawyd bod £50 miliwn ar gael i awdurdodau lleol, a gafodd y dasg o reoli'r broses o ddyrannu'r cyllid a sicrhau bod y trydydd sector a byrddau iechyd lleol yn ymwneud â phob agwedd ar y broses. Dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd y dylai'r gronfa "*greu newid sylweddol i'r ffordd y mae gwasanaethau'n gweithio ar y cyd ar lefel strategol a gweithredol.*"<sup>2</sup>

Cyhoeddwyd y gronfa gyntaf yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2013. Cwblhawyd cynlluniau ar gyfer ei dyrannu erbyn mis Rhagfyr 2013, a'r terfyn amser a osodwyd ar gyfer cyflwyno cynigion oedd mis Mawrth 2014. O ganlyniad, nid oedd llawer o amser i ddatblygu a chyflwyno cynigion ac i sefydliadau drefnu perthnasoedd newydd.

Gan gydnabod yr amserlen dynn, gofynnodd Llywodraeth Cymru i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ddefnyddio eu dulliau ymgysylltu presennol, ar yr un pryd ag ystyried sut y gellir gwella'r rhain. Ailystyriodd rhai byrddau rhanbarthol eu haelodaeth o ganlyniad i hyn. Mae Cynghrair Henoed Cymru o'r farn bod sicrhau cynrychiolaeth briodol ar fyrddau rhanbarthol yn hollbwysig, ond gall dibynnu ar Gyngorau Gwirfoddol Sirol i gynrychioli'r trydydd sector olygu bod diffyg safbwynt strategol gan sefydliadau cenedlaethol y trydydd sector. Yn ogystal, hyd yn oed gyda chynrychiolaeth briodol ar fyrddau, mae datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer gweithio ar y cyd yn dal i fod yn heriol.

Croesawodd Cynghrair Henoed Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y cyhoeddiad ynglŷn â'r Gronfa Gofal Canolraddol i ddechrau. Roedd y sefydliadau'n falch o weld, mewn hinsawdd o gynildeb, bod pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal integredig i'r rhai hynny sydd â'r angen mwyaf amdanynt yn cael ei flaenoriaethu. Fodd bynnag, mynegodd y grwpiau bryder ynglŷn â'r bwriad i ddyrannu'r gronfa i awdurdodau lleol yn unig. Mewn ymateb i hyn, datganodd Llywodraeth Cymru y byddai dyrannu arian i awdurdodau lleol yn fwy effeithiol na'i ddosbarthu rhwng gwahanol sectorau, gan fod y gronfa wedi'i llunio i hybu gweithio mewn partneriaeth.

<sup>1</sup> Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar y Gronfa Gofal Canolraddol. Ar gael yn <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/8284299/?lang=en>

<sup>2</sup> Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar y Gronfa Gofal Canolraddol. Ar gael yn <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/8284299/?lang=en>

Ar ddechrau proses y Gronfa Gofal Canolraddol, teimlwyd y byddai'r cynnig o £50 miliwn ar adeg pan fo llawer o sefydliadau'r trydydd sector yn wynebu pwysau ariannol sylweddol ond yn cynyddu ymynysiaeth a chystadleuaeth yn y sector hwnnw. Mewn gwirionedd, dangosodd y Gronfa fod pwysau ariannol yn gorfodi sefydliadau i ddod yn fwy disgybledig wrth ddatblygu partneriaethau a chanolbwyntio ar yr hyn sydd wir yn bwysig – gwella bywydau pobl hŷn.

Yn ystod seminar Cynghrair Henoed Cymru, cytunodd y cynrychiolwyr fod diffyg ymddiriedaeth ac atebolrwydd a rennir rhwng sectorau yn llesteirio gweithio ar y cyd. Yn ôl cynrychiolwyr o'r sector statudol, mae eu cydweithwyr yn teimlo weithiau bod sefydliadau'r trydydd sector yn mynnu rhan o'u cyllidebau, ond nad ydynt yn cael eu dal i gyfrif am wasanaeth gwael neu fethu â chyrraedd targedau.

Yn yr un modd, roedd cynrychiolwyr o'r trydydd sector yn teimlo nad yw staff mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn aml yn gwerthfawrogi ehangder a phwysigrwydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Cytunwyd bod angen i'r sectorau fod yn gefn i'w gilydd er mwyn datblygu partneriaethau cynaliadwy. Mae'n amlwg na ddylai sefydliadau'r trydydd sector fyth tanbriso gwerth hybu eu gwasanaethau a bod angen iddynt herio safbwyntiau presennol; mae'r ddau sector wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diweddar ac mae angen i wybodaeth am ffyrdd newydd o weithio gael ei rhannu.

Mae'n amlwg na fydd yn bosibl creu system iechyd a gofal cymdeithasol integredig tra bod diffyg ymddiriedaeth rhwng sectorau yn parhau. Mae angen i bawb sy'n gysylltiedig ddeall bod galluogi cydweithredu yn rhan allweddol o'u gwaith. Yn ogystal, cytunodd y cynrychiolwyr fod angen i sgysiau rhwng sectorau symud oddi wrth ganolbwyntio ar ddoosbarthu arian i ystyried anghenion pobl hŷn a sut y gellir bodloni'r rhain.

Er mwyn gwella canfyddiadau ynglŷn â'r trydydd sector, awgrymwyd y dylai sefydliadau ddatblygu eu 'pwynt gwerthu unigryw' eu hunain a chasglu tystiolaeth o'u hanes, cymhwysedd, hyblygrwydd a dibynadwyedd. Gallai gwasanaethau gael eu hyrwyddo hefyd trwy ledaenu arfer da ac astudiaethau achos, a gallai hwyluso ymweliadau â phrosiectau fod yn ddefnyddiol hefyd.

Mae gan y trydydd sector rôl bwysig i'w chwarae wrth gynorthwyo pobl i heneiddio'n dda, ymdopi'n well â salwch a gwella eu lles. Mae symudiad presennol Llywodraeth Cymru tuag at ddarparu *gofal iechyd darbodus* yn blaenoriaethu hunanofal. Mae hyn yn cyflwyno cyfle enfawr i'r trydydd sector oherwydd y dylai mwy o bwyslais ar hunanofal arwain at alw am wasanaethau sy'n lleihau derbyniadau i ysbytai ac sy'n gwella gweithdrefnau rhyddhau o'r ysbyty. Byddai cyfateb cynlluniau â chynlluniau byrddau rhanbarthol yn galluogi sefydliadau i osgoi dyblygu ac i ymwneud mwy â chynllunio gwasanaethau.

## **Dysgu**

I lawer o aelodau Cynghrair Henoed Cymru, mae'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi teimlo fel bod ar ben arall proses ddiffygiol. Er gwaethaf sicrwydd gan rai byrddau rhanbarthol y

byddai'r trydydd sector yn cael ei gynnwys yn y broses gynnig, siomedig ydoedd nad oedd hyn wedi digwydd.

Er nad yw'r profiad wedi bod yn berffaith o bell ffordd, mae wedi amlygu meysydd lle y mae'n rhaid gwella gwaith partneriaeth rhwng sectorau ac o fewn y trydydd sector ei hun os yw'r weledigaeth ar gyfer gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig am gael ei gwireddu. Mae hefyd wedi cychwyn sgysiau newydd rhwng sectorau a chryfhau'r disgwyliad y dylai'r trydydd sector gael ei gynnwys mewn dylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd gwerthusiadau, yn ogystal ag ystyried sut y gwariwyd yr arian, hefyd yn edrych ar y graddau yr oedd sefydliadau'n ymwneud â sgysiau cynllunio cychwynnol a sut y trosyd hyn i ddarparu prosiectau.

Mae adborth cychwynnol yn dangos bod prosiectau a ariennir yn gwneud gwahaniaeth. Ceir mwy o ddealltwriaeth hefyd rhwng sectorau o ba wasanaethau y gallant eu darparu, ond mae angen gwella'r dulliau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd a chynyddu capasiti yn y trydydd sector. Mae angen hefyd pennu sut y gall sefydliadau lleol a chenedlaethol y trydydd sector weithio gyda'i gilydd ar lefel weithredol a strategol.

Gall y nod strategol, sef gwella bywydau pobl hŷn, gael ei anwybyddu'n aml wrth i ormod o sgysiau ganolbwyntio ar ddsbarthu arian. Mae Cynghrair Henoed Cymru mewn sefyllfa dda i gychwyn sgws strategol ynglŷn â gwella gwasanaethau i bobl hŷn a sicrhau, wrth greu partneriaeth rhwng sectorau, mai gwella bywydau pobl hŷn yw'r egwyddor sy'n sail i'r holl benderfyniadau.

### **Argymhellion ar gyfer sefydliadau Cynghrair Henoed Cymru**

- Hybu ymwybyddiaeth o wasanaethau trwy ddatblygu 'pwynt gwerthu unigryw', lledaenu arfer da a hwyluso ymweliadau â phrosiectau.
- Gwella canfyddiadau o'r trydydd sector trwy gasglu tystiolaeth o hanes, cymhwysedd, hyblygrwydd a dibynadwyedd sefydliad.
- Parhau i ganolbwyntio ar atal er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu byw yn dda am gyn hired â phosibl.
- Gwella'r cyfathrebu rhwng sectorau er mwyn datblygu trafodaethau mwy gwybodus, a gwasanaethau rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol.
- Ymgysylltu â'r gymuned wleidyddol er mwyn annog gwleidyddion i ystyried materion iechyd ar sail tymor hir, a pheidio â blaenoriaethu datrysiadau tymor byr.

### **Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru**

- Osgoi ffrydiau cyllido blwyddyn sengl – mae rhaglenni cyllido amlflwyddyn yn fwy effeithiol.
- Sicrhau bod y graddfeydd amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau am gyllid yn rhoi digon o amser i bob sector drefnu partneriaethau newydd.
- Parhau i ddarparu cyfarwyddyd strategol bod y sector statudol yn cynnwys y trydydd sector yn y broses o gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau.

- Ariannu'r trydydd sector – ni fydd integreiddio'n digwydd os collir capasiti yn y trydydd sector.
- Gwella ymgysylltu â dinasyddion – gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau bod safbwyntiau pobl hŷn yn cael eu hystyried wrth ddatblygu strategaethau, mentrau a ffrydiau cyllido.

### **Argymhellion ar gyfer y sectorau statudol**

- Sicrhau bod sefydliadau cenedlaethol y trydydd sector yn cael eu cynrychioli ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol, ochr yn ochr â'r sector gwirfoddol lleol. Amlygu pwyntiau cyswllt priodol i hwyluso ymgysylltu â'r trydydd sector.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn y trydydd sector i gynyddu ymddiriedaeth a datblygu dulliau ar gyfer atebolrwydd a rennir.
- Cynnwys y trydydd sector wrth ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau.
- Cynnwys pobl hŷn wrth ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau.

Sefydlwyd Cynghrair Henoed Cymru yn 2003 ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n **gynghrair bwerus o 19 sefydliad gwirfoddol cenedlaethol sy'n ymrwymedig i gydweithio er mwyn datblygu'r fframweithiau deddfwriaethol, polisi ac adnoddau a fydd yn gwella bywydau pobl hŷn yng Nghymru**. Gyda'i gilydd, mae aelod-sefydliadau Cynghrair Henoed Cymru yn meddu ar wybodaeth helaeth am ddatblygu a darparu gwasanaethau mewn ystod o feysydd polisi. Mae'r holl sefydliadau hefyd yn gweithredu ar lefel strategol yn ogystal â gweithredol, ac mae nifer wedi'u seilio ar aelodaeth. Mae'r sefydliadau canlynol yn aelodau o Gynghrair Henoed Cymru:

**Action on Hearing Loss Cymru, Age Connects Cymru, Age Cymru, Cymdeithas Clefyd Alzheimer Cymru, Gofal Arthritis, y Groes Goch Brydeinig yng Nghymru, Gofal a Thrawsio Cymru, Gofalwyr Cymru, Contact the Elderly, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Cruse Cymru, CSV Cymru, Deafblind Cymru, Anabledd Cymru, NIACE Cymru, Prime Cymru, y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, RNIB Cymru a'r Gymdeithas Strôc.**

Cyswllt: Rachel Lewis. [rachel.lewis@agealliancewales.org.uk](mailto:rachel.lewis@agealliancewales.org.uk). Rhif ffôn: 029 2043 1554.